



Nodyn Cyfarwyddyd: diddymiadau a threfniadau trosiannol mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cyflwyniad

1. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ("Deddf 2014") yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n diwygio'r fframwaith cyfreithiol cyfredol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bydd llawer o'r darpariaethau hyn yn effeithio ar bobl sy'n derbyn gofal a chymorth ar hyn o bryd dan y system sydd eisoes yn bodoli ac ar ddarparwyr gwasanaethau sy'n gweithredu oddi mewn i'r system honno.
2. Gan fod y darpariaethau hyn wedi dechrau, ar 6 Ebrill 2016, mae angen diddymu neu wneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol. Mae angen gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer y trefniadau trosiannol a fydd yn berthnasol i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth o fewn y fframwaith sydd eisoes yn bodoli, er mwyn eu symud i'r fframwaith newydd a sefydlir dan Ddeddf 2014.
3. Mae'r nodyn hwn yn ymwneud yn bennaf â'r diddymiadau a'r diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol a welir yn [Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 \(Diwygiadau Canlyniadol\) 2016](#)¹ ("y Rheoliadau").
1. 4. Mae'r nodyn hwn yn ymwneud hefyd â'r ddarpariaeth ar gyfer y trefniadau trosiannol. Mae rhywfaint o ddarpariaeth drosiannol wedi'i chynnwys yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Mae darpariaeth drosiannol ychwanegol i'w gweld yn [Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 \(Diwygiadau Canlyniadol\) \(Deddfwriaeth Eilaidd\) 2016](#)² a [Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 \(Cychwyn Rhif 3, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol\) 2016](#)³.

Crynodeb o'r prif ddiddymiadau

5. Mae'r Rheoliadau'n diwygio ac mewn rhai achosion yn diddymu deddfwriaeth sylfaenol lle bo angen i sicrhau nad oes unrhyw achos o ddyblygu neu orgyffwrdd swyddogaethau o dan Ddeddf 2014 a swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth sylfaenol a oedd yn bod cynt. Mae angen gwneud newidiadau canlyniadol hefyd i ddeddfwriaeth sylfaenol arall sy'n cyfeirio at ddarpariaethau sy'n cael eu diwygio neu eu diddymu gan y Rheoliadau.
6. Er enghraifft, mae Rhan 6 o Ddeddf 2014 yn disodli darpariaethau Rhan 3 ac Atodlen 2 o Ddeddf Plant 1989 o ran sut maent yn weithredol yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r Rheoliadau'n diwygio Rhan 3 ac Atodlen 2 o Ddeddf 1989 fel

¹ O.S. 2016 413

² O.S. 2016 211

³ S.I. 2016 412

nad yw'n berthnasol i Gymru mwyach ond mae'n dal i fod yn berthnasol i Loegr. Mae'r Rheoliadau yn gwneud newidiadau canlyniadol hefyd i ddeddfwriaeth arall sy'n cyfeirio at y darpariaethau hyn o Ddeddf Plant 1989, fel bo'r cyfeiriad hwnnw'n cael ei wneud i'r ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf 2014.

7. Mewn rhai achosion, mae'r Rheoliadau ond yn diddymu deddfwriaeth sylfaenol. Er enghraifft, pan fo deddfwriaeth wedi'i datgymhwysu eisoes mewn perthynas â Lloegr (fel adran 21 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948), mae'r Rheoliadau'n diddymu'r ddeddfwriaeth honno yn awr.
8. Mae Rhannau 2 i 6 o Ddeddf 2014 yn darparu ar gyfer gwella canlyniadau llesiant pobl yng Nghymru sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r Rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sy'n sail i ddarpariaeth gofal a chymorth i bobl a chymorth i ofalwyr yng Nghymru ar hyn o bryd, yn cynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol a chodi tâl.
9. Yn gyffredinol, mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol i'w diwygio sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth i oedolion a gofalwyr ("y ddeddfwriaeth gofal cymunedol flaenorol") yn berthnasol i Gymru yn unig. Bydd y diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau yn golygu bod y ddeddfwriaeth gofal cymunedol gyfredol yn cael ei diddymu. Lle bydd yn parhau i fod yn berthnasol i Loegr bydd darpariaeth yn cael ei diwygio fel na fydd yn berthnasol i Gymru mwyach ond yn parhau i fod yn berthnasol i Loegr yn unig.
10. I grynhoi, mae deddfwriaeth gofal cymunedol sy'n cael ei diddymu neu ei datgymhwysu yng Nghymru o ganlyniad i gychwyn Deddf 2014 yn cynnwys y canlynol:
 - Rhannau 3 a 4 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948
 - Adran 3 o Ddeddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1958
 - Adran 45 o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus 1968
 - Adrannau 1, 2 a 28A o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1968
 - Adran 17 o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983
 - Adrannau 3, 4 ac 8 o Ddeddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986
 - Adran 46 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (DS mae adran 47 o Ddeddf 1990 wedi cael ei diwygio fel nad yw'n berthnasol i asesu a diwallu anghenion ar gyfer gwasanaethau gofal cymunedol i'r graddau y darperir ar gyfer hyn bellach yn Neddf 2014 ond bydd yn parhau i fod yn berthnasol i asesu a diwallu anghenion ar gyfer gwasanaethau o dan adran 177 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983)
 - Deddf Gofalwyr (Cydnabod a Gwasanaethau) 1995
 - Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000
 - Adrannau 49, 50, 54, 55, 56 a 57 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001
 - Adran 16 o Ddeddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) 2003
 - Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004
 - Adran 192 o ac Atodlen 15 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
 - Deddf Gofal Personol yn y Cartref 2010
 - Mesur Taliadau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010

- Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010 (DS mae hwn yn cael ei ddiddymu o ganlyniad i ddarpariaethau yn adran 14 o Ddeddf 2014 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynnal asesiadau o anghenion eu poblogaeth leol, yn cynnwys anghenion gofalwyr).
11. Yn gyffredinol, mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth i blant a'u teuluoedd wedi'i chynnwys yn Rhan 3 o ac Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989 ("Deddf 1989"). Mae'r diwygiadau a wneir yn y Rheoliadau yn golygu na fydd y darpariaethau hyn yn berthnasol i Gymru mwyach ond byddant yn dal i fod yn berthnasol i Loegr. Mae'r darpariaethau craidd ar gyfer gofal a chymorth i blant a'u teuluoedd bellach wedi'u cynnwys o fewn Deddf 2014 (gweler paragraff 19 isod).
 12. Mae Rhan 7 o Ddeddf 2014 yn darparu ar gyfer diogelu oedolion sydd mewn perygl a phlant, yn cynnwys sefydlu Byrddau Diogelu i oedolion a phlant. Mae'r Rheoliadau'n diddymu adrannau 31-34 o Ddeddf Plant 2004 ("Deddf 2004") i ddileu'r gofynion cyfredol ar gyfer sefydlu Byrddau Diogelu Plant Lleol yng Nghymru.
 13. Mae Rhan 8 o Ddeddf 2014 yn darparu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n cyflwyno Atodlen 2, sy'n nodi swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'n darparu hefyd ar gyfer penodi cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, ar gyfer gwneud codau am ddefnyddio swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ac ar gyfer ymyrraeth gan Weinidogion Cymru pan fo awdurdod lleol yn methu cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn briodol. Roedd darpariaeth ar gyfer y materion hyn wedi'i chynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 ("Deddf 1970"). Mae'r Rheoliadau'n diwygio Deddf 1970 fel nad yw'n berthnasol i Gymru mwyach ond bydd yn parhau i fod yn berthnasol i Loegr yn unig.
 14. Mae Rhan 9 o Ddeddf 2014 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Mae gofynion o fewn [Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth \(Cymru\) 2015](#) mewn perthynas â Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn disodli'r darpariaethau cyfredol yn Rhan 3 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, sy'n cael eu diddymu gan y Rheoliadau.
 15. Mae Rhan 10 o Ddeddf 2014 yn darparu ar gyfer cwynion a sylwadau am wasanaethau cymdeithasol a ddarparwyd neu a drefnwyd gan awdurdodau lleol. Roedd darpariaeth ar gyfer cwynion wedi'i chynnwys yn Rhan 2 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 ("Deddf 2003") a darpariaeth ar gyfer sylwadau ynghylch plant wedi'i chynnwys yn Rhan 3 o Ddeddf 1989. Mae'r Rheoliadau'n diwygio Deddf 2003 a Deddf 1989 i ddileu'r ddarpariaeth ar gyfer y materion hyn i'r graddau maent yn berthnasol i Gymru.

Cyffredinol

16. Yn gyffredinol, pan mae darpariaeth yn neddfwriaeth sylfaenol y DU wedi'i datgymhwysu mewn perthynas â Lloegr a'r bwriad yw na fydd yn berthnasol mwyach i Gymru ychwaith, mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer hepgor y ddarpariaeth honno neu ei diddymu (os yw'n berthnasol i'r Ddeddf gyfan). O ran cwmpas yr hyn sy'n cael ei hepgor neu ei ddiddymu, dim ond i awdurdodaeth

Cymru a Lloegr y gall ymestyn ac nid yw'n effeithio o gwbl ar y ddarpariaeth honno i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Alban neu Ogledd Iwerddon.

Diwygiadau eraill

17. Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau canlyniadol a chysylltiedig hefyd i ddarpariaethau deddfwriaeth sylfaenol eraill sy'n cyfeirio, at wahanol ddibenion, at y ddeddfwriaeth gofal cymunedol gyfredol, Deddf 1989, Deddf 2004, Deddf 1970 neu Ddeddf 2003. Mae'r diwygiadau hyn yn cyflwyno darpariaeth i Gymru sy'n adlewyrchu'r darpariaethau newydd yn Neddf 2014.
18. Mae'r Rheoliadau'n gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf 2014 ei hun, yn cynnwys diwygiadau a wneir yn bennaf er mwyn gweithredu darpariaethau Deddf 2014 yn llawn neu o ganlyniad i ddarpariaeth o'r fath.

Gwybodaeth arall

19. Mae tabl o leoliadau, sy'n nodi'r darpariaethau o Ddeddf Plant 1989 sydd wedi'u datgymhwysu mewn perthynas â Chymru o ganlyniad i'r Rheoliadau a'r ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ynghlwm er gwybodaeth yn **Dog A**. Mae'r tabl hwn yn cynnwys sylw i **Ran 6 (plant sy'n derbyn gofal ac yn cael eu lletya)**.
20. Mae tabl arall yn rhestru'r adrannau o Rannau 1-5 a 7-11 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r darpariaethau cyfatebol mewn deddfwriaeth sylfaenol gyfredol sy'n cael eu diddymu neu eu diwygio o ganlyniad i'r Rheoliadau. Mae'r tabl hwn ynghlwm er gwybodaeth yn **Dog B**.

Crynodeb o ddarpariaethau trosiannol

Cofrestrï Anabledd (Adran 18)

21. Er mwyn sicrhau eu bod yn dal i allu derbyn nawdd cymdeithasol a budd-daliadau eraill, mae oedolion sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall o dan adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ("Deddf 1948") i'w trin fel rhai sydd wedi'u cofrestru â nam difrifol ar eu golwg a nam ar eu golwg o dan adran 18 o Ddeddf 2014.

Asesu (Adrannau 19, 21, 24)

22. Ni luniwyd unrhyw reoliadau trosiannol ar asesu plant, oedolion na gofalgwyr; bydd y trefniadau newydd yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016. Os oes asesiad wedi'i gychwyn a heb ei orffen ond bod yr asesiad yn bodloni'r gofynion asesu o dan Ddeddf 2014, gall fod yn gymwys. Os nad yw'r asesiad yn bodloni gofynion yr asesiad o dan Ddeddf 2014 gellir defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o dan hen ddeddfwriaeth fel sail i'r asesiad newydd. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y penderfyniad cymhwysedd yn seiliedig ar y broses asesu newydd o 6 Ebrill 2016 ymlaen.

Diwallu Anghenion Gofal a Chymorth (cyffredinol)

23. Pan fo anghenion unigolyn yn cael eu diwallu o dan ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli ar 6 Ebrill 2016, bydd y ddarpariaeth arbedion a throsiannol gyffredinol

yn darparu bod y ddeddfwriaeth honno yn parhau i fod yn berthnasol, er bod y ddeddfwriaeth wedi'i diddymu. Mae hyn yn berthnasol nes bod achos yr unigolyn yn cael ei adolygu neu tan 31 Mawrth 2017 (neu 1 Hydref 2016 yn achos plentyn), pa un bynnag yw'r cynharaf. Bryd hynny, bydd gofynion Deddf 2014 yn dod yn berthnasol yn achos yr unigolyn dan sylw.

Dyfarnu cymhwysra ac ystyried beth i'w wneud i ddiwallu anghenion (Adran 32)

24. Os yw unigolyn yn gymwys o dan ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli bydd ei statws yn parhau nes ei adolygiad. Dylid cynnal yr adolygiad erbyn 1 Hydref 2016 yn achos plant a 31 Mawrth 2017 yn achos oedolion, a bydd gofynion Deddf 2014 yn berthnasol wedi hynny.

Diwallu anghenion gofal a chymorth oedolion (Adran 35)

25. Os yw anghenion oedolyn yn cael eu diwallu o dan ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli dylai ei gynllun barhau i fod ar waith nes yr adolygiad cyntaf a ddylai ddiwydd o fewn 12 mis i gychwyn (hynny yw, erbyn 31 Mawrth 2017).

Diwallu anghenion plant am ofal a chymorth (Adran 37)

26. Pan fo awdurdod lleol yn diwallu anghenion plentyn dylid parhau i ddiwallu'r anghenion hyn nes bod adolygiad wedi'i gynnal o dan Ddeddf 2014. Dylid cynnal yr adolygiad o fewn 6 mis i gychwyn (hynny yw, erbyn 1 Hydref 2016).

Diwallu anghenion gofalwr am gymorth (Adrannau 40 i 45)

27. Os yw awdurdod lleol yn diwallu anghenion gofalwr o dan ddeddfwriaeth gyfredol dylai hyn barhau nes yr adolygiad. Yn achos plentyn sy'n gofalu dylid cynnal yr adolygiad o fewn 6 mis (erbyn 1 Hydref 2016) ac o fewn 12 mis yn achos oedolyn sy'n gofalu (erbyn 31 Mawrth 2017). Dylid cynnal yr adolygiad o'r gofalwr a'r unigolyn sy'n derbyn y gofal yr un pryd.

Diwallu Anghenion – cyfyngiadau (Adran 49)

28. Bydd unigolyn sy'n derbyn taliadau arian parod o dan adran 17(6) o Ddeddf Plant 1989 yn parhau i dderbyn y taliadau hynny nes bydd ei achos yn cael ei adolygu (gweler paragraff 27). Yna, bydd darpariaethau adran 49 o Ddeddf 2014 yn berthnasol, a allai arwain at benderfyniad i roi'r gorau i'r taliadau neu i wneud y taliadau yn daliadau uniongyrchol o dan adrannau 50 i 53 Deddf 2014.

Taliadau Uniongyrchol (Adrannau 50 i 53)

29. Bydd hawl unigolyn i dderbyn taliadau uniongyrchol o dan y ddeddfwriaeth flaenorol yn parhau nes cynnal adolygiad o anghenion yr unigolyn fel yr amlinellir uchod. Ar ôl cynnal yr adolygiad, os yw anghenion o'r fath i'w diwallu drwy barhau i ddarparu taliadau uniongyrchol, dylid darparu taliadau'r dyfodol yn unol ag adrannau 50 i 53 o Ddeddf 2014 fel y bo'n briodol i'r unigolyn.

Cynlluniau Gofal a Chymorth a Chynlluniau Cymorth (Adran 54)

30. Gan na fydd Deddf 2014 yn berthnasol i unrhyw unigolyn y mae ei anghenion yn cael eu diwallu o dan ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli nes bydd adolygiad wedi'i gynnal, ni fydd Deddf 2014 yn berthnasol i unrhyw unigolyn sydd â chynllun gofal cyfredol (gweler paragraff 26 ymlaen). Ar ôl cynnal yr adolygiad, bydd Deddf 2014 yn berthnasol a bydd angen cynllun gofal o dan adran 54.

Dewis o lety (Adran 57)

31. Mae'r darpariaethau arbedion a throsiannol cyffredinol yn berthnasol i unrhyw ddarpariaeth sy'n gweithredu mewn perthynas â, neu drwy gyfeirio at, gymorth neu wasanaethau a ddarperir, yn cynnwys costau a symiau eraill sy'n daladwy a'r broses o'u hadennill. Byddai hyn yn cynnwys unigolyn yn mynegi dewis am lety preswyl penodol a symiau sy'n daladwy fel symiau atodol trydydd parti o dan y rheoliadau taliadau ychwanegol cyfredol.

Gwarchod eiddo personau y gofelir amdanynt i ffwrdd o'u cartrefi (Adran 58)

32. Pan fo camau wedi'u cymryd cyn cychwyn Deddf 2014 i atal neu liniaru achos o golli, neu ddifrod i eiddo yn uno ag adran 48 o Ddeddf 1948, bydd y camau hyn yn cael eu trin fel petaent wedi'u cymryd yn unol ag adran 58 o Ddeddf 2014. Yn yr un modd, pan fo awdurdod lleol wedi mynd i gostau o dan adran 48 o Ddeddf 1948 ond heb eu hadennill cyn cychwyn Deddf 2014, caiff y costau hyn eu hadennill o dan adran 58 o Ddeddf 2014.

Codi ffioedd am ddiwallu anghenion (Adrannau 50 – 53 - taliadau uniongyrchol ac Adrannau 59-67 - gofal a chymorth a ddarperir neu a drefnir)

Codi ffioedd am wasanaethau ataliol a chynhorthwy (Adran 69)

Gorfodi dyledion (Adrannau 70 i 73)

33. Gan fod y darpariaethau arbedion a throsiannol cyffredinol yn berthnasol i unrhyw ddarpariaeth sy'n gweithredu mewn perthynas â, neu drwy gyfeirio at, gymorth neu wasanaethau a ddarperir, yn cynnwys costau a symiau eraill sy'n ddyledus a'r broses o'u hadennill, bydd ffioedd yn parhau i gael eu codi a'u hadfer o dan y ddeddfwriaeth flaenorol nes bod adolygiad wedi'i gynnal o anghenion yr unigolyn. Ar ôl cynnal yr adolygiad hwn, dylid cynnal asesiad ariannol a ffioedd o dan Ran 4 (mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol) a Rhan 5 (mewn perthynas â gofal a chymorth a ddarperir neu a drefnir) o Ddeddf 2014.

Cytundebau ar Daliadau Gohiriedig (Adran 68)

34. Pan fo unigolyn yn derbyn gofal a llety o dan y ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli ar 6 Ebrill 2016 a bod yna gytundeb taliadau gohiriedig ar waith, bydd hwn yn parhau i fod mewn grym. Ar ôl cynnal adolygiad o anghenion yr unigolyn yn unol â'r darpariaethau arbedion a throsiannol cyffredinol, bydd y darpariaethau newydd ar godi ffioedd yn berthnasol ond bydd y cytundeb cyfredol ar daliadau gohiriedig yn dal mewn grym i sicrhau y telir y ffioedd hynny.

Plant sy'n derbyn gofal (Adrannau 75 – 119, 124 a 125)

Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol

35. Ni fydd datgymhwyso Rhan 3 ac Atodlen 2 o Ddeddf 1989 yng Nghymru yn effeithio ar statws plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (drwy rinwedd gorchymyn gofal o dan adran 31 o Ddeddf 1989). Fodd bynnag, bydd hyn yn effeithio ar y ffordd mae'r awdurdod lleol yn lletya a chynnal plant o'r fath. Ystyrir bod penderfyniadau am leoli plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ar 6 Ebrill 2016 wedi'u cymryd a'u gweithredu o dan Ran 6 o Ddeddf 2014.

Plant sy'n cael eu lletya o dan adran 20 o Ddeddf 1989

36. Mae statws plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol drwy rinwedd y ffaith eu bod yn cael eu lletya a'u cynnal yn unol ag adran 20 o Ddeddf 1989 yn cael ei gadw ar 6 Ebrill 2016 a thu hwnt; ystyrir bod plant o'r fath yn derbyn gofal o dan adran 76 o Ddeddf 2014, a bod y penderfyniadau am leoli plant o'r fath wedi'u gwneud yn unol â Rhan 6 o Ddeddf 2014.

Plant sy'n derbyn gofal – plant perthnasol / personau ifanc categori 1

37. Cyn 6 Ebrill 2016, er mwyn cymhwyso fel "plentyn perthnasol" o dan Ran 3 o Ddeddf 1989, mae'n rhaid i blentyn dderbyn gofal gan awdurdod lleol am gyfnod neu gyfnodau sy'n gyfanswm o 13 wythnos sy'n dechrau ar ôl iddo droi'n 14 oed ac yn gorffen ar ôl iddo droi'n 16 oed.
38. Bydd unrhyw amser mae plentyn yn ei dreulio dan ofal awdurdod lleol yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 1989 cyn 6 Ebrill 2016 ac sy'n bodloni'r amodau yn y diffiniad o "person ifanc categori 1" a nodir yn adran 104(2) o Ddeddf 2014 yn cael ei gyfrif wrth benderfynu statws y plentyn o dan Ddeddf 2014.

Personau sy'n gymwys am gyngor a chymorth o dan adran 24(1B) o Ddeddf 1989

39. Cyn 6 Ebrill 2016, roedd rhai personau ifanc yn gymwys am gyngor a chymorth o dan adran 24 o Ddeddf 1989 o ganlyniad i'r amser y gwnaethant ei dreulio yn derbyn gofal, neu'n cael eu lletya neu mewn gofal maeth (o fewn ystyr adran 24 o Ddeddf 1989) pan fyddant yn 16 oed neu drosodd (ond yn dal yn blentyn). Bydd unrhyw gyfnodau o'r fath sy'n perthyn i'r cyfnod cyn 6 Ebrill 2016 yn cael eu cynnwys wrth gyfrif amser o dan adran 104(2) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r plentyn hwnnw.

Seibiannau byr

40. Cyn 6 Ebrill 2016 gall awdurdod lleol ddarparu llety i blentyn am gyfnod byr o dan adran 20 o Ddeddf 1989. Os yw'r llety'n cael ei ddarparu am 24 awr neu fwy bydd y plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae rheoliad 14 o Reoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007 yn gwneud darpariaeth sy'n datgymhwyso rhai darpariaethau o'r rheoliadau hynny i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol mewn "lleoliad tymor byr" (neu gyfres o leoliadau o'r fath) sy'n dod o dan gyfres o amodau sydd yn y rheoliad hwnnw.
41. Bydd unrhyw adeg mae plentyn yn cael ei letya mewn "lleoliad tymor byr" o fewn ystyr rheoliad 14 o reoliadau 2007 yn cael ei ystyried wrth gyfrif yr amser mae plentyn wedi derbyn llety fel seibiant byr (o fewn ystyr rheoliad 62 o [Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion \(Cymru\) 2015](#)).

Penderfyniadau awdurdod lleol i wrthod cyswllt â phlentyn mewn gofal

42. Os yw plentyn yn destun gorchymyn gofal o dan adran 31 o Ddeddf 1989, mae adran 34 o'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn ganiatáu i rieni'r plentyn (a phersonau eraill a bennir yn adran 34(1)) gael cyswllt â'r plentyn.
43. Fodd bynnag, wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan Ran 3 o Ddeddf 1989, gall awdurdod lleol benderfynu nad yw cyswllt o'r fath er budd pennaf y plentyn.
44. Ystyrir bod unrhyw benderfyniad a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 22(3)(a) o Ddeddf 1989 i wrthod cyswllt â phlentyn yn ei ofal a fyddai'n ofynnol fel arall o dan adran 34 o Ddeddf 1989 wedi'i wneud yn unol ag adran 78(1) o Ddeddf 2014 ar ôl 6 Ebrill 2016.

Plant sy'n derbyn gofal – adolygu achosion

45. Cyn 6 Ebrill 2016, roedd yn rhaid adolygu achos unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn rheolaidd yn unol â darpariaeth a wnaed yn Rheoliadau Adolygu Achosion (Cymru) 2007.
46. Mae darpariaethau trosiannol yn sicrhau bod amserlenni ar gyfer adolygiadau a fyddai'n ofynnol ar gyfer plant sy'n dod o fewn cwrpas y ddarpariaeth ddeddfwriaethol oedd eisoes yn bodoli yn cael eu cadw ar ôl 6 Ebrill 2016.
47. Mae'n rhaid i unrhyw adolygiadau a wneir ar ôl 6 Ebrill 2016 gael eu cynnal yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 102 o Ddeddf 2014 (gweler Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015).

Plant sy'n derbyn gofal – swyddogion adolygu annibynnol

48. Ar ôl 6 Ebrill 2016, bydd penodi unrhyw swyddog adolygu annibynnol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 26 o Ddeddf 1989 (gweler Rheoliadau Adolygu Achosion (Cymru) 2007) yn cael ei ystyried fel penodiad a wnaed yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 99 o Ddeddf 2014 (gweler Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015).

Plant sy'n derbyn gofal – ymwelwyr annibynnol

49. Ar ôl 6 Ebrill 2016, bydd penodi unrhyw ymwelydd annibynnol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 17 o Atodlen 2 o Ddeddf 1989 (gweler Rheoliadau Diffiniad o Ymwelwyr Annibynnol (Plant) 1991) yn cael ei ystyried fel penodiad a wnaed yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 98 o Ddeddf 2014 (gweler Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015).

Trefniadau pan fydda i'n barod

50. Pan fo gan berson ifanc a arferai fod yn blentyn perthnasol drefniant byw "pan fydda i'n barod" yn union cyn i Ran 6 o Ddeddf 2014 gychwyn (6 Ebrill 2016), a wnaed yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 1989, pan fydd Rhan 6 o Ddeddf 2014 yn

cychwyn ac wedyn bydd y trefniant hwnnw'n cael ei ystyried fel un a wnaed yn unol â Rhan 6 o'r Ddeddf honno ar gyfer person ifanc categori 3.

Gorchmynion ac achosion o dan Ran 3 ac Atodlen 2 o Ddeddf 1989

51. Mae darpariaethau trosiannol wedi'u llunio i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir, gorchmynion a wneir mewn llys, neu achosion cyfreithiol nad ydynt wedi'u datrys pan ddaw Rhan 6 ac Atodlen 1 o Ddeddf 2014 i rym yn cael eu cadw.
52. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, bod unrhyw orchmynion a wneir gan y llys o dan Atodlen 2 o Ddeddf 1989 sy'n gofyn i berson wneud cyfraniadau tuag at gostau awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn yn cael eu cadw.
53. Bydd unrhyw achosion cyfreithiol a gyflwynwyd o dan Ran 3 o ac Atodlen 2 i Ddeddf 1989 ond nad ydynt wedi'u datrys ar 6 Ebrill 2016 yn parhau, yn cael eu datrys ac unrhyw gamau gorfodi'n cael eu cwblhau yn unol â'r ddarpariaeth a wnaed gan Ran 3 o ac Atodlen 2 i Ddeddf 1989.

Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion (Adrannau 134 – 142)

54. Dylid cwblhau unrhyw Adolygiadau Ymarfer Plant a gychwynwyd o dan reoliadau a oedd eisoes yn bodoli yn unol â'r rheoliadau hyn. Fodd bynnag, bydd addasiadau darfodol wedi cael eu gwneud i'r rheoliadau hynny i'w gwneud hi'n ofynnol i roi copïau unrhyw adroddiadau i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol newydd ar ei sefydlu.

Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (Adran 144)

55. Bydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a benodwyd o dan y ddeddfwriaeth a oedd eisoes yn bodoli ac sydd mewn swydd ar 6 Ebrill 2016 yn cael eu trin fel rhai a benodwyd o dan Ddeddf 2014. Ni fydd y gofynion newydd yn ymwneud â dangos cymwyseddau penodol yn berthnasol. Mae'n rhaid penodi cyfarwyddwyr ar ôl 6 Ebrill 2016 yn unol â gofynion Deddf 2014.

Ymyrraeth gan llywodraeth ganolog (Adrannau 150 – 161)

56. Mewn unrhyw achos lle mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio pwerau ymyrryd o dan ddeddfwriaeth a oedd eisoes yn bodoli ac nad yw'r cyfnod cydymffurfio wedi dod i ben ar 6 Ebrill 2016, bydd y ddeddfwriaeth a oedd eisoes yn bodoli yn parhau i fod mewn grym yn yr achos hwnnw.

Cwynion a sylwadau

57. Bydd y rheoliadau sy'n llywodraethu cwynion a sylwadau gan oedolion a phlant neu ar eu rhan yn parhau mewn grym hyd yn oed ar ôl 6 Ebrill 2016 drwy rinwedd adran 17 o Ddeddf Dehongli 1978. Y rhain yw Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 ar gyfer plant⁴ a Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 ar gyfer oedolion⁵.

Preswylfa arferol (Adran 194)

⁴ O.S. 2014/1795

⁵ O.S. 2014/1794

58. Pan fydd gan oedolion anghenion sy'n cael eu diwallu o dan y ddeddfwriaeth a oedd eisoes yn bodoli a bod yr oedolyn hwnnw'n cael ei drin fel un sy'n preswyllo fel arfer yn ardal awdurdod lleol drwy rinwedd adran 24(5) neu (6) o Ddeddf 1948, yna bydd yn cael ei drin fel un sy'n preswyllo fel arfer yn yr ardal honno at ddibenion Deddf 2014 o'r dyddiad y bydd Deddf 2014 yn berthnasol iddo – hynny yw, o ddyddiad yr adolygiad (gweler paragraff 23 uchod). Bydd hyn yn sicrhau bod yna ddilyniant i oedolion a leolwyd y tu allan i ardal ac mae'r awdurdod lleol a oedd yn gyfrifol am eu lleoli yn parhau i fod yn gyfrifol amdanynt.
59. Nid oes angen darpariaeth drosiannol ar gyfer preswylfa arferol plant. Bydd adran 194 o Ddeddf 2014 yn berthnasol o 6 Ebrill 2016 fel bo unrhyw gyfnod pan fydd y plentyn wedi'i leoli mewn llety a ddarperir gan neu ar ran awdurdod lleol, boed o dan Ddeddf 2014 neu Ddeddf 1989, yn cael ei ddiystyru wrth benderfynu ble maent yn preswyllo fel arfer. Bydd hyn yn sicrhau dilyniant i blant oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol cyn i Ddeddf 2014 gychwyn.

Anghydfodau ynghylch preswylfa arferol (Adran 195)

60. Yn yr un modd, mae unrhyw gwestiynau ynghylch preswylfa arferol oedolyn sy'n codi o dan Ddeddf 1948 ac sydd i'w penderfynu gan Weinidogion Cymru ar ôl 6 Ebrill 2016 i'w penderfynu yn unol ag adran 195 o Ddeddf 2014.

Teitlau byr y Deddfau y cyfeirir atynt uchod

Deddf 1948	Deddf Cymorth Gwladol 1948
Deddf 1970	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970
Deddf 1989	Deddf Plant 1989
Deddf 2003	Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003
Deddf 2004	Deddf Plant 2004
Deddf 2014	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014